Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.

# Adolygiad Ansawdd Porth: Cymru

## Coleg Gwent

Adroddiad Adolygu

Tachwedd 2023

# Cynnwys

**Y canfyddiadau allweddol ..... 1**

Beirniadaethau QAA am Goleg Gwent ..... 1

Y meysydd sydd angen eu datblygu ..... 1

Y gwelliannau penodedig ..... 1

**Yr adolygiad hwn ..... 1**

**Ynghylch Coleg Gwent ..... 2**

**Y maes beirniadaeth: Dibynadwyedd y safonau academaidd a'u gallu i gael eu cymharu ..... 3**

Y feirniadaeth ..... 6

**Y maes beirniadaeth: Ansawdd profiad academaidd y myfyrwyr ..... 7**

Y feirniadaeth ..... 14

**Sylwadau am gydymffurfiaeth â'r Safonau Iaith Gymraeg ..... 15**

# Y canfyddiadau allweddol

## Beirniadaethau QAA am Goleg Gwent

Rhoddodd tîm adolygu QAA y beirniadaethau canlynol am y ddarpariaeth addysg uwch yng Ngholeg Gwent:

- **Gellir teimlo hyder bod y safonau academaidd yn ddibynadwy, yn bodloni gofynion y DU, ac yn cymharu'n rhesymol â'r safonau a osodir ac a gyflawnir gan ddarparwyr eraill yn y DU.**
- **Gellir teimlo hyder bod ansawdd profiad academaidd y myfyrwyr yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol.**

## Y meysydd sydd angen eu datblygu

Ni nododd y tîm adolygu unrhyw **feysydd sydd angen eu datblygu**.

## Y gwelliannau penodedig

Ni nododd y tîm adolygu unrhyw **welliannau penodedig**.

# Yr adolygiad hwn

Cynhaliwyd yr ymweliad adolygu rhwng 22 a 23 Tachwedd 2023 a chafodd ei weithredu gan dîm o dri adolygwr, sef:

- Dr Fiona Thompson
- Mark Cooper
- Matthew Kitching (adolygwr sy'n fyfyriwr).

Nod cyffredinol Adolygiad Ansawdd Porth: Cymru yw:

- rhoi barn arbenigol i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru am barodrwydd y darparwr i fynd i mewn i'r sector addysg uwch, neu i barhau i weithredu ynddo.

Lluniwyd y broses Adolygiad Ansawdd Porth: Cymru i:

- sicrhau bod buddiannau'r myfyrwyr yn cael eu diogelu
- roi cyngor arbenigol er mwyn sicrhau bod enw da system addysg uwch y DU yn cael ei ddiogelu, gan gynnwys diogelu safonau graddau
- ganfod meysydd sydd angen eu datblygu a fydd yn helpu'r darparwr i symud ymlaen drwy gyfnod datblygiadol a chael ei ystyried yn ddarparwr 'sefydledig'.

Mae pob adolygiad yn ystyried trefniadau'r darparwr yn erbyn agweddau perthnasol o'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol, ac mae'n ystyried y canlynol yn arbennig:

- dibynadwyedd y safonau graddau a'u gallu rhesymol i gael eu cymharu â'r safonau a osodir ac a gyflawnir gan ddarparwyr eraill
- ansawdd profiad academaidd y myfyrwyr, gan gynnwys canlyniadau'r myfyrwyr lle mae gan y darparwr hanes o ran darpariaeth addysg uwch.

## Ynghylch Coleg Gwent

Mae Coleg Gwent (y Coleg) yn un o'r colegau addysg bellach mwyaf yng Nghymru, ac mae'n gweithredu o bum prif gampws yng Nghasnewydd, Torfaen, Brynbuga, Crosskeys a Glynebwy. Mae'r Coleg yn darparu ystod gynhwysfawr o raglenni addysg a hyfforddiant cyffredinol a galwedigaethol - o lefel mynediad hyd lefel 6 - mewn amrywiaeth eang o feysydd astudio i 24,000 o fyfyrwyr.

Mae'r Coleg yn gwbl ymroddedig i ehangu cyfranogaeth a darparu cyfleoedd addysg uwch i'r rheiny sydd o gefndiroedd addysg uwch anhraddodiadol. Ym mlwyddyn academaidd 2022-23, daeth 50% o fyfyrwyr y Coleg o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig (degraddau 1 i 4) ym mhum sir Gwent. O ran y ddarpariaeth benodol i addysg uwch, roedd 52% o'r myfyrwyr addysg uwch yn perthyn i ddegraddau 1 i 4 (sef y myfyrwyr hynny sy'n dod o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig ac sydd leiaf tebygol o fynd ymlaen i addysg uwch). Roedd 21% o'r dysgwyr ar lefel 3 a gwblhaodd yn 2022 wedi symud ymlaen i addysg uwch Coleg Gwent, a daeth 13% ohonynt ar lwybrau galwedigaethol. Roedd gan 17% o'r myfyrwyr addysg uwch yng ngharfan 2022-23 anabledd neu anhawster dysgu wedi ei datgelu. Roedd 72% o'r myfyrwyr yn 21 oed neu'n hŷn ar ddechrau eu cyrsiau.

Mae'r Coleg yn cynnig rhaglenni sydd wedi eu hetholfreinio iddo gan bum partner dyfarnu. Prif brifysgol bartner y Coleg yw Prifysgol De Cymru sy'n cynnig Graddau Sylfaen mewn Busnes, Chwaraeon, Astudiaethau Plentyndod, Addysg, Gofal Iechyd Anifeiliaid, Nyrsio Milfeddygol, Iechyd a Lles Cymunedol, Celf, Dylunio a'r Cyfryngau, gyda rhywfaint o ddarpariaeth atodol ar lefel 6.

Mae'r Coleg yn cynnig Gradd Sylfaen mewn Ymarfer Corff a Lles a ddyfernir gan Brifysgol Caerwrangon, a Gradd Sylfaen mewn Astudiaethau Ceffylau a ddyfernir gan Brifysgol Aberystwyth. Mae'n cynnig Graddau Sylfaen a ddyfernir gan Brifysgol Metropolitan Caerdydd mewn Ffotograffiaeth, Sgiliau Dylunio, Gofal Iechyd Cyflenwol a Chwaraeon.

Mae'r Coleg yn cynnig rhaglenni Tystysgrif Genedlaethol Uwch a Diploma Cenedlaethol Uwch llawn amser a rhan amser a ddyfernir gan Pearson mewn Adeiladu, Peirianneg, Coluro Arbenigol, Busnes a Thechnoleg Gwybodaeth.

# Y maes beirniadaeth: Dibynadwyedd y safonau academaidd a'u gallu i gael eu cymharu

## *Y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon* (FHEQ)

1 Mae trefniadau credydau'r Coleg ar gyfer y *Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon* (FHEQ) a *Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru* (FfCChC) wedi eu halinio. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau a ddatblygwyd ar gyfer y trefniadau hyn yn berthnasol i'r ddau fframwaith fel ei gilydd, ac mae rhestr lawn o bolisïau addysg uwch ar gael ar wefan a mewnrwyd Coleg Gwent. Mae teitl pob polisi'n cynnwys gwe-ddolen sy'n arwain at dudalen we gysylltiedig y Coleg neu'r brifysgol bartner berthnasol sy'n rhoi manylion eu polisi, eu polisi academaidd a/neu eu gweithdrefn berthnasol. Mae'r holl ddarpariaeth addysg uwch a ddarperir gan y Coleg wedi ei hetholfreinio iddo gan ei gyrff dyfarnu a'i sefydliad dyfarnu sy'n cynllunio'r rhaglenni. Maent yn gyfrifol am sicrhau aliniad â'r FHEQ, fel sydd wedi ei nodi mewn rhestrau gwirio o gyfrifoldebau. Mae'r cytundebau ffurfiol sydd gan y Coleg gyda'i bartneriaid dyfarnu'n cynnwys datganiadau clir sy'n nodi bod yn rhaid i'r rhaglenni a gynigir o dan eu cytundeb gyfateb â'r rhai a ddarperir gan y brifysgol berthnasol a gan sefydliadau mewn rhannau eraill o'r DU, o ran y safonau academaidd a gyrhaeddir gan fyfyrwyr sy'n ennill dyfarniadau cymaradwy, a bod yn rhaid iddyn nhw alinio â'r FHEQ.

## *Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru* (FfCChC)

2 Mae Llawlyfr Academaidd Prifysgol Metropolitan Caerdydd hefyd yn nodi'r polisïau a'r arferion sy'n gysylltiedig â FfCChC. Ar gyfer darpariaeth Pearson, mae'r llwybrau wedi eu dilysu a'u gosod ymlaen llaw, ond mae'r Coleg yn gweithio gyda'i bartneriaid etholfreinio i gefnogi'r myfyrwyr i drosglwyddo'n esmwyth i lefel 6. Ar gyfer rhaglenni sy'n alinio â safonau FfCChC, y cyrff dyfarnu sy'n gyfrifol am y trefniadau casglu a throsglwyddo credydau ac achredu dysgu (profiadol) blaenorol, ac mae'r adran ynglŷn ag asesiadau yn llawlyfrau myfyrwyr y cyrsiau addysg uwch yn cynnwys diagram defnyddiol sy'n rhoi trosolwg o FfCChC.

## Yr Arferion Craidd a'r Arferion Cyffredin sydd wedi eu nodi yng Nghod Ansawdd Addysg Uwch y DU (y Cod Ansawdd)

### Yr arferion craidd: Mae'r darparwr yn sicrhau bod y safonau trothwy ar gyfer ei gymwysterau'n gyson â'r fframweithiau cymwysterau cenedlaethol sy'n berthnasol iddynt.

3 Mae'r Coleg yn gofyn i bob Pennaeth Ysgol gyflwyno Ffurflen Cynnig Cwrs Addysg Uwch Newydd yn rhan o'i gylch cynnig cwrs newydd. Cyflwynir y ffurflen hon i'r Grŵp Llywio Addysg Uwch sy'n ystyried pob cynnig ynddi cyn ei chyflwyno i uwch dîm rheoli'r Coleg i wirio a chadarnhau gofynion adnoddau'r cwrs. Gofynnir i'r cynigydd ystyried y disgrifyddion lefel yn FfCChC a'r Cod Ansawdd wrth gwblhau'r ffurflen. Gosodir y safonau academaidd yn ystod y broses ddatblygu a dilysu ar y cyd â'r cyrff dyfarnu. Ar hyn o bryd, mae'r Coleg yn cyfeirio at fanylebau safonol rhaglen Pearson fel y manylebau trosfwaol sy'n berthnasol i'w raglenni sy'n arwain at gymwysterau Pearson, ond mae'r Coleg yn eu rhoi yng nghyd-destun amcanion a chanlyniadau dysgu a fwriedir pob rhaglen benodol, a'r ffordd y bydd y myfyrwyr yn eu cyflawni. Mae prosesau dilysu'r prifysgolion partner yn nodi'r disgwyliadau'n glir o ran defnyddio pwyntiau cyfeirio eraill wrth osod safonau academaidd. Er enghraifft, mae dogfen ddilysu'r rhaglen BA mewn Darlunio ar gyfer Diwydiant a gyflwynwyd i'r panel yn nodi'n fanwl sut yr aethant ati i ystyried a mapio'r rhaglen yn erbyn y Datganiad Meincnodi Pwnc Celf a Dylunio gan QAA ar gyfer graddau israddedig, a'r fframweithiau graddau a dosbarthiadau. Yn rhan o'r ymarfer dilysu

hwn, cymerwyd Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig i ystyriaeth hefyd wrth adolygu'r rhaglen BA (Anrh) mewn Darlunio ar gyfer Diwydiant, fel yr oedd yn berthnasol.

4 Mae'r Coleg yn dilyn gofynion pob un o'i gyrff dyfarnu o ran marcio, safoni a samplu. Mae safonau academaidd gwaith y myfyrwyr yn cael eu monitro a'u sicrhau mewn dwy ffordd: mae'r gwaith a asesir ar raglenni Pearson yn cael ei safoni'n fewnol (drwy broses asesu ansawdd y Coleg), ond mae'r prifysgolion partner yn gyfrifol am wneud hynny ar gyfer eu rhaglenni eu hunain, gyda chefnogaeth arholwr allanol a benodir ar gyfer pob un o'u rhaglenni. Penodir arholwyr allanol gan bob corff dyfarnu yn unol â'r cytundeb partneriaeth a'r memorandwm cyd-ddealltwriaeth sydd ganddo gyda'r Coleg er mwyn sicrhau bod yr arferion asesu o safon dderbyniol, bod gofynion pob rhaglen yn cael eu bodloni, a bod safonau academaidd yn cael eu gosod a/neu eu cynnal ar lefel briodol ar ran y partner dyfarnu perthnasol. Mae nifer o fforymau'r Coleg yn monitro canlyniadau adroddiadau'r arholwyr allanol, er enghraifft yn y dogfennau a ganlyn: Adroddiad Hunanasesu Addysg Uwch blynyddol, agendâu a chylchoedd gwaith y Pwyllgor Ansawdd Addysg Uwch ac, yn arbennig, yn y ddogfen Themâu Cyffredin o Adroddiadau Arholwyr Allanol a'i chamau gweithredu cysylltiedig.

### Yr arferion craidd: Mae'r darparwr yn sicrhau bod y myfyrwyr y dyfernir cymwysterau iddynt yn cael y cyfle i gyrraedd safonau sy'n uwch na'r lefel trothwy sy'n cymharu'n rhesymol â'r rheiny a gyflawnir gan fyfyrwyr darparwyr eraill yn y DU.

5 Mae'r Coleg yn cynnal Byrddau Arholi Addysg Uwch ddwywaith y flwyddyn i graffu ar fodiwlau pob rhaglen. Trosglwyddir data a geir gan y byrddau hyn, a'r hyn a ddysgir drwy ddadansoddi tueddiadau a themâu cysylltiedig, i mewn i adroddiadau monitro cynhwysfawr am gyrsiau, a chymerir camau gweithredu priodol ar ganlyniadau'r adroddiadau hyn sy'n cael eu monitro hyd eu cyflawniad. Hefyd, mae'r Coleg yn craffu ar ddata o arolygon ar lefel modiwl i chwilio am unrhyw beth amlwg ynglŷn â modiwl neu ddysgwr penodol sydd allan o'r cyffredin neu'n anghyson. Yna mae'r dadansoddiad hwn yn dod yn sail ar gyfer trafodaeth gyda'r arholwr allanol ac yn nodi tueddiadau ar draws prifysgolion partner eraill neu unrhyw ddylanwadau lleol eraill y mae angen eu hystyried wrth ddyfarnu graddau. Yn ogystal, mae'r Coleg yn defnyddio ei rith-amgylchedd dysgu ar-lein yn effeithiol lle gall myfyrwyr gyflwyno adborth ar ganol modiwl ar unrhyw agwedd o'u hastudiaethau, ac yna mae canlyniadau'r adborth hwnnw'n cael ei nodi a'i brysbennu gan dîm addysg uwch y Coleg er mwyn chwilio am batrymau a phryderon cyffredin. Yna mae'n lledaenu'r wybodaeth honno fel y gellir gweithredu arni.

6 Mae gan y Coleg gylch ansawdd cynhwysfawr i sicrhau y gellir cyrraedd safonau academaidd, ac mae'n rhoi'r cyfle i'w fyfyrwyr gyrraedd safonau sy'n uwch na lefelau trothwy. Mae'r Cylch Monitro Addysg Uwch Parhaus hwn yn amlinellu'r gweithgareddau allweddol yn ymwneud ag ansawdd a gynhelir drwy gydol y flwyddyn, ac mae'r staff yn deall ac yn dilyn y cylch hwn yn glir. Mae'r cylch yn cynnwys gweithgareddau cynefino, arolygu ac adolygu modiwlau, gwaith byrddau arholi a byrddau cynnydd, a gweithgareddau allweddol eraill. Yn ogystal, mae gan y Coleg galendr addysg uwch manwl cysylltiedig sy'n torri'r cylch i lawr yn weithgareddau datblygu cysylltiedig hawdd eu pennu i'r staff. Mae'r Coleg yn paratoi a chyflwyno adroddiadau gwerthuso i'w gyrff dyfarnu, gan gadw at yr amseriadau a osodir ganddynt, ac, yn bwysig iawn, i gorff llywodraethu'r Coleg ei hun sy'n derbyn adroddiad am safonau'r dyfarniadau y mae'n gyfrifol amdanynt. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn dangos yn fanwl sut mae'r broses o brynu adnoddau a'r gwaith o reoli ansawdd y dysgu a'r addysgu'n cydweithio â'i gilydd i sicrhau safonau academaidd.

**Yr arferion craidd: Lle mae'r darparwr yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, mae ganddo drefniadau effeithiol i sicrhau bod safonau ei ddyfarniadau'n sicr ac yn ddibynadwy, lle bynnag neu sut bynnag y darperir y cyrsiau neu pwy bynnag sy'n eu darparu.**

7 Mae'r Coleg yn cydweithio'n effeithiol â phum partner dyfarnu, pedair prifysgol ac un sefydliad, ac yn darparu rhaglenni o dan gytundebau partneriaeth a memoranda cyd-ddealltwriaeth â phob un ohonynt. Mae'r cytundebau hyn yn gofyn bod rhaglenni'n cyfateb â'r lefel briodol yn y FHEQ, ac mae fframweithiau rheoliadol y partneriaid eu hunain yn sicrhau bod hyn yn digwydd. Mae'r Rhestr Wirio o Gyfrifoldebau tuag at Sefydliadau Dyfarnu'n amlinellu'r cyfrifoldebau'n glir sydd gan y Coleg yn y cyswllt hwn tuag at bob un o'i gyrff dyfarnu, gan ddangos darluniad y cyfrifoldebau. Mae'r Coleg yn defnyddio ei Gylch Monitro Parhaus ei hun (Medi 2022 hyd Ionawr 2024), sydd ar gael i'w staff ar ei wefan SharePoint Addysg Uwch, i sicrhau ei fod yn cyflawni'r cyfrifoldebau a ddirprwywyd iddo gan ei bartneriaid dyfarnu gan hefyd weithio tuag at gyflawni ei ofynion ei hun o ran rhoi adroddiadau blynyddol.

8 Mae'r cytundebau ffurfiol sydd gan y Coleg gyda'i bum partner dyfarnu'n gofyn bod rhaglenni'n cyfateb â'r lefelau priodol yn y FHEQ a FfCChC. Mae rhestrau gwirio o rolau a chyfrifoldebau'n ymwneud â phob un o'i gyrff dyfarnu sy'n dangos darluniad y cyfrifoldebau, ac mae'r Rhestr Wirio o Gyfrifoldebau tuag at Sefydliadau Dyfarnu'n eu rhoi yn eu cyd-destun, ac mae'r staff yn deall hyn. Mae dogfennau dilysu'r rhaglenni, llawlyfrau'r cyrsiau a manylebau rhaglenni'r prifysgolion yn rhoi gwybodaeth gynhwysfawr yn ymwneud â'r FHEQ, i lawr i lefel y modiwlau.

**Yr arferion craidd: Mae'r darparwr yn defnyddio arbenigedd allanol, ac yn defnyddio prosesau ar gyfer asesu a dosbarthu sy'n ddibynadwy, yn deg ac yn eglur.**

9 Mae'r Coleg yn defnyddio arbenigedd allanol a phrosesau ar gyfer asesu a dosbarthu sy'n ddibynadwy, yn deg ac yn eglur. Mae'r Coleg yn sicrhau hyn drwy ei drefniadau a'i gytundebau gyda'i brifysgolion partner sy'n penodi arholwyr allanol ar gyfer pob un o'u rhaglenni, a thrwy safoni gwaith a asesir ar raglenni Pearson yn fewnol (drwy broses asesu ansawdd y Coleg). Defnyddir dogfen Themâu Cyffredin o Adroddiadau Arholwyr Allanol i gydgrynhoi a monitro canlyniadau ymweliadau ac adroddiadau arholwyr allanol. Yn ogystal, mae Canllaw Cyrsiau Addysg Uwch 2024-25 y Coleg yn nodi ei fod yn cynnal cyrsiau sy'n cynnwys elfennau dysgu yn y gweithle. Y nod yw sicrhau bod y myfyrwyr yn cael y sgiliau gyrfaol a'r profiad penodol sy'n berthnasol i'r diwydiant y mae cyflogwyr yn eu gwerthfawrogi. Cefnogir lleoliadau gwaith gyda llawlyfrau lleoliad gwaith cynhwysfawr sy'n esbonio'r trefniadau, y cymorth sydd ar gael, a'r broses o gofnodi gweithgareddau dysgu. Er enghraifft, mae Llawlyfr Lleoliad Gwaith Clinigol y rhaglen FdSc mewn Nyrsio Milfeddygol yn nodi'r gofynion am gael cofrestriad proffesiynol yn glir.

**Yr arferion cyffredin: Mae'r darparwr yn adolygu ei arferion craidd sy'n ymwneud â safonau'n rheolaidd, ac mae'n defnyddio'r canlyniadau i ysgogi datblygiad a gwelliant.**

10 Ar ôl casglu a dadansoddi adolygiadau a wneir ar lefelau'r cyrsiau a'r modiwlau, mae pob Pennaeth Ysgol yn cwblhau Adroddiad Trosolwg Addysg Uwch yr Ysgol gyda chynlluniau gweithredu ystyriol cysylltiedig. Mae'r Adroddiadau Trosolwg yn ymwneud ag adborth ac yn rhoi trosolwg o gyflawniad y myfyrwyr ar y cyrsiau, ac o gryfderau a meysydd sydd angen eu gwella. Yna mae'r Cyfarwyddwyr Cyfadran yn derbyn Adroddiadau Trosolwg Addysg Uwch yr ysgolion yn eu cyfadrannau. Wedi hynny, ysgrifennir Adroddiad Trosolwg y Gyfadran cyfannol sy'n dod â darpariaeth addysg uwch y gyfadran at ei gilydd mewn un adroddiad. Yn dilyn hyn, mae'r Pennaeth Addysg Uwch yn llunio Adroddiad Hunanasesu Addysg Uwch i'r Coleg cyfan sy'n cynnwys cynllun gweithredu cysylltiedig. Mae'r dogfennau hyn yn drwyadl ac yn fanwl, ac mae'r cynlluniau gweithredu cysylltiedig yn adlewyrchu ymrwymiad i hybu cyflawniad.

Er enghraifft, mae manylion canlyniadau arolygon yn dangos bod y Coleg wedi perfformio'n well na'i brifysgol bartner berthnasol ymhob maes heblaw dau (adnoddau dysgu a'r gymuned ddysgu).

## Y Disgwyliadau o ran Safonau sydd wedi eu nodi yng Nghod Ansawdd Addysg Uwch y DU (y Cod Ansawdd)

11 Mae'r Coleg yn dilyn gofynion a chanllawiau'r cyrff dyfarnu ar gyfer darparu ac asesu rhaglenni. Mae pob rhaglen a ddarperir gan y Coleg wedi ei hetholfreinio iddo gan ei gyrff dyfarnu a'i sefydliadau dyfarnu sy'n gyfrifol am gynllunio'r rhaglenni a'u haliniad â'r FHEQ a FfCChC. Mae gweithdrefnau'r Coleg ar gyfer monitro a goruchwylio rhaglenni'n sicrhau bod y safonau priodol yn cael eu bodloni. Mae'r defnydd a wneir o fyrddau arholi ac adroddiadau arholwyr allanol yn sicrhau bod cymwysterau'n cael eu dyfarnu i fyfyrwyr sydd wedi cyflawni'r canlyniadau dysgu gofynnol.

## Y feirniadaeth

12 I ffurfio ei feirniadaethau, gallai'r tîm adolygu archwilio ystod eang o dystiolaeth ddogfennol, sy'n cynnwys dogfen hunanwerthusiad a chyflwyniad y myfyrwyr; a gallai'r tîm adolygu hefyd gwrdd ag amrywiaeth eang o staff a myfyrwyr. Galluogodd y cyfarfodydd a'r dogfennau i'r tîm adolygu weld tystiolaeth gadarn sy'n dangos bod safonau academaidd y cyrsiau'n bodloni gofynion y fframweithiau cymwysterau cenedlaethol sy'n berthnasol iddynt (y *Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon*; *Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru*) a'r Disgwyliadau, yr Arferion Craidd a'r Arferion Cyffredin mewn perthynas â safonau sydd wedi eu nodi yng Nghod Ansawdd Addysg Uwch y DU; a bod y cymwysterau a ddyfernir yn gyfatebol i'r safonau a gydnabyddir gan y sector.

13 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad y gellir teimlo hyder bod y safonau academaidd yn ddibynadwy, yn bodloni gofynion y DU, ac yn rhesymol gymaradwy â safonau a osodwyd ac a gyflawnir gan ddarparwyr eraill yn y DU.

# Y maes beirniadaeth: Ansawdd profiad academaidd y myfyrwyr

## Yr Arferion Craidd a'r Arferion Cyffredin sydd wedi eu nodi yng Nghod Ansawdd Addysg Uwch y DU (y Cod Ansawdd)

### Yr arferion craidd: Mae gan y darparwr system dderbyn sy'n deg, yn ddibynadwy ac yn gynhwysol.

14 Mae dulliau'r Coleg o dderbyn myfyrwyr wedi eu disgrifio yn ei Bolisi Derbyn ar gyfer Addysg Uwch, sydd ar gael ar ei wefan a'i rith-amgylchedd dysgu. Mae taflenni gwybodaeth am y cyrsiau'n dangos y meini prawf mynediad yn glir ac yn ddefnyddiol i gyflenwi canllawiau cyhoeddedig y cyrsiau. Clywodd y tîm gan y myfyrwyr bod y rheiny o'r tu allan i'r Coleg a wnaeth gais am le wedi gweld bod ystod eang o wybodaeth berthnasol ar gael i'w cefnogi wrth wneud penderfyniad am astudio yn y Coleg a bod unrhyw ymholiadau oedd ganddynt wedi derbyn ymateb prydlon. Clywodd y tîm gan y myfyrwyr hynny a wnaeth gais am le yn uniongyrchol o raglenni lefel 3 y Coleg eu bod wedi derbyn cefnogaeth drwy gydol y broses a'u bod wedi derbyn arweiniad am yr holl gyfleoedd i symud ymlaen oedd ar gael iddyn nhw, gan gynnwys cyfleoedd y tu allan i'r sefydliad. Dywedodd y myfyrwyr wrth y tîm hefyd eu bod wedi elwa o wythnos 'Symud Ymlaen i Lefel 3', tripiau i'r prifysgolion partner a Chanllaw i Ymgeiswyr am le ar gyrsiau addysg uwch Coleg Gwent. Clywodd y tîm, er nad yw cyfweliadau'n ofynnol i ymgeiswyr mewnol, bod rhai o aelodau'r staff yn dewis eu defnyddio nhw fel cyfle i helpu'r myfyrwyr i ddeall y rhaglen a'i gofynion yn well. Hefyd, gallai'r ymgeiswyr ddatgelu eu hanghenion dysgu ychwanegol yn rhan o'u cais, ac mae'r polisi'n amlinellu'r broses berthnasol. Rhoddodd y staff nifer o esiamplau o addasiadau rhesymol a wnaed i fyfyrwyr.

15 Ar gyfer lleoedd a gynigir ar gyrsiau Pearson a Phrifysgol De Cymru, mae'r ymgeiswyr llwyddiannus yn derbyn llythyr cynnig safonol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae myfyrwyr Prifysgol Metropolitan Caerdydd a Phrifysgol Caerwrangon yn gwneud cais am le drwy system UCAS, ac mae dysgwyr Prifysgol Aberystwyth yn derbyn eu llythyr cynnig yn uniongyrchol gan y corff dyfarnu. Yn ogystal â'u llythyr cynnig, mae'r myfyrwyr yn derbyn gwe-ddolen at Gontract y Myfyriwr a'i delerau ac amodau. Mae'r telerau ac amodau ar gael ar wefan y Coleg hefyd. Yn ystod yr ymweliad adolygu, cadarnhawyd mewn cyfarfodydd gyda'r myfyrwyr a'u cynrychiolwyr bod yr wybodaeth a ddarparwyd iddynt yn ystod y broses ymgeisio'n cyfateb â'u disgwyliadau.

16 Mae'r Coleg yn cynnal deialog agos gyda'i gyrff dyfarnu am brosesau derbyn. Mae hyn yn cynnwys cyfarfodydd Grŵp Gweithredol Partneriaid y Coleg lle mae prosesau o recriwtio a derbyn myfyrwyr yn cael eu monitro ar y cyd. Hefyd, mae'r Coleg yn darparu datblygiad proffesiynol parhaus perthnasol i'r aelodau hynny o staff sy'n cymryd rhan yn y broses dderbyn myfyrwyr, yn cynnwys sgyrsiau am gymorth cyllid myfyrwyr a hyfforddiant pwrpasol.

### Yr arferion craidd: Mae'r darparwr yn llunio a/neu'n darparu cyrsiau o safon uchel.

17 Mae'r cyrff dyfarnu'n gyfrifol am gymeradwyo'r ddarpariaeth, ac mae'r Coleg yn chwarae rôl weithredol yn y broses. Mae'r prosesau mewnol wedi eu diffinio'n glir ac yn cael eu dilyn - fel y gwelwyd yn y dilysiad diweddar o'r rhaglen BA mewn Darlunio ar gyfer Diwydiant (atodol) - ac maent yn dilyn prosesau cymeradwyo'r corff dyfarnu. Mae'r myfyrwyr yn chwarae rôl weithredol yn y prosesau o adolygu, cymeradwyo ac ail-gymeradwyo rhaglenni. Mae cynigion am ddarpariaeth newydd yn cael eu datblygu ar lefel yr ysgolion, ac mae'r Cyfarwyddwr Cyfadran yn eu cyflwyno i'r Pwyllgor Llywio Addysg Uwch i gael eu hystyried. Rhoddir y gymeradwyaeth derfynol gan uwch dîm rheoli'r Coleg wedi iddo ystyried yr adnoddau.

18 Mae pum prif grŵp sy'n canolbwyntio ar sicrhau ansawdd y ddarpariaeth addysg uwch: y Pwyllgor Ansawdd Addysg Uwch, y Pwyllgor Dysgu ac Addysgu Addysg Uwch, y Byrddau Arholi Addysg Uwch, y Byrddau Cynnydd Cyrsiau Addysg Uwch, y Pwyllgor Addysg Uwch,

a'r Grŵp Llywio Addysg Uwch. Mae'r grwpiau hyn yn gweithredu prosesau sy'n galluogi i'r Coleg ddarparu rhaglenni o safon uchel. Yn ogystal, mae'r Pwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd - sy'n is-bwyllgor i'r Bwrdd Llywodraethwyr - hefyd yn ystyried materion addysg uwch. Mae'r Pwyllgor Ansawdd Addysg Uwch yn gyfrifol am fonitro ac adolygu ansawdd y ddarpariaeth. Mae'r Pwyllgor Dysgu ac Addysgu Addysg Uwch yn gyfrifol am oruchwylio gwelliant ym mhrofiad y myfyrwyr o ran dysgu ac addysgu. Mae'r Byrddau Arholi Addysg Uwch yn ystyried canlyniadau'r myfyrwyr. Mae'r Byrddau Cynnydd Cyrsiau Addysg Uwch yn cadarnhau bod y myfyrwyr wedi cyflawni'r canlyniadau dysgu a fwriedir ac yn nodi unrhyw gamau gweithredu pellach sy'n ofynnol i bob dysgwr. Mae'r Pwyllgor Addysg Uwch yn adolygu'r ddarpariaeth yn rheolaidd er mwyn cefnogi'r Coleg i gyflawni ei weledigaeth strategol, ac mae'r Grŵp Llywio Addysg Uwch yn ystyried ac yn siapio cyfeiriad strategol a gweithredol y Coleg, gan sicrhau bod ei strategaeth addysg uwch yn cael ei gweithredu a bod effeithiolrwydd gweithredol yr holl weithdrefnau ac arferion addysg uwch yn cael ei fonitro. Yn ogystal, mae'r Pwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd yn monitro ac yn goruchwylio ansawdd yr addysg uwch a'r cwricwla ar lefel y Bwrdd, ac mae'n argymell bod y Datganiad o Sicrwydd Academaidd blynyddol yn cael ei gymeradwyo. Gwelwyd y gydberthynas rhwng y pwyllgorau hyn yn y cylch adolygu blynyddol sy'n cydgasglu adroddiadau am adborth myfyrwyr, ac adroddiadau'r prosesau monitro cyrsiau a'r pwyllgorau perthnasol.

### Yr arferion craidd: Mae gan y darparwr nifer ddigonol o staff sydd â'r cymwysterau a'r sgiliau priodol i ddarparu profiad academaidd o safon uchel.

19 Mae'r cyrff dyfarnu'n cymeradwyo penodiad staff, naill ai drwy'r broses ddilysu neu drwy'r prosesau monitro parhaus. Er enghraifft, gofynnir i bob aelod o'r staff sy'n darparu darpariaeth a gymeradwyir gan Brifysgol De Cymru gael Statws Athro Cydnabyddedig - mae hyn yn cynnwys proses sydd wedi ei seilio ar feini prawf ac yn sicrhau bod gan yr holl staff addysgu gymwysterau a phrofiad priodol. Mae'r Coleg yn rhoi hyfforddiant cynefino manwl i staff sydd newydd eu cyflogi, yn cynnwys cyrsiau ar-lein yn ymwneud â chyfrifoldebau statudol, yn ogystal â chwrs Tiwtor Addysg Uwch penodol. Mae gan y Coleg broses adolygu perfformiad gynhwysfawr i bob aelod o'i staff sy'n rhoi ystyriaeth i ddatblygiadau addysgol cyffredinol a rhai mewn meysydd astudio penodol, yn ogystal ag anghenion cysylltiedig o ran datblygiad proffesiynol parhaus (DPP). Mae themâu sy'n codi o'r adolygiadau hyn yn bwydo i mewn i gyfleoedd DPP addysg uwch i'r Coleg cyfan.

20 Mae cyfle i'r staff wneud cais am gymorth ariannol i wneud astudiaethau pellach ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd a Phrifysgol De Cymru, ac mae nifer o aelodau'r staff yn astudio ar lefelau meistr a doethuriaeth. Yn ogystal, mae cyfle i'r staff astudio i ennill statws Cymrawd Advance HE. Hefyd, mae cymorth ariannol ar gael i'r staff gymryd rhan mewn cynadleddau perthnasol, yn ogystal â chyfleoedd i ddiweddaru eu sgiliau proffesiynol neu eu sgiliau mewn perthynas â chwricwlwm penodol. Mae'r Coleg yn darparu ystod eang o gyfleoedd datblygiad parhaus i'w staff, ac mae ganddo wefan am ymchwil ac arloesi mewn arferion addysgol ar-lein sy'n cynnig pob math o wybodaeth. Defnyddir cylchlythyr penodol i staff addysg uwch i roi gwybod iddyn nhw am gyfleoedd hyfforddi, yn ogystal â diweddariadau mwy cyffredinol.

21 Mae'r Coleg yn cynnal cynhadledd DPP flynyddol gyda chyfraniad allanol sydd hefyd yn ystyried themâu sy'n codi o'r broses fonitro barhaus. Mae wedi cyflwyno cynhadledd 'ymchwil-weithredu' yn ddiweddar i arddangos prosiectau ymchwil a wnaethpwyd ym mlwyddyn academaidd 2022-23, a bwriedir cynnal y gynhadledd hon bob blwyddyn i dynnu sylw at waith ymchwil y staff. Mae'r Cynllun Strategol Dysgu ac Addysgu'n disgrifio'r ffordd y mae'r Coleg yn bwriadu parhau i wella ansawdd yr addysgu a'r asesu, gan gynnwys drwy ddefnyddio technoleg i gefnogi dysgu. Ochr yn ochr â'r strategaeth hon, mae Rhaglen Llwyddiant Addysgu ar waith, sef llwybr i gefnogi'r staff i ddatblygu eu harferion addysgu.

## Yr arferion craidd: Mae gan y darparwr gyfleusterau, adnoddau dysgu a gwasanaethau cefnogi myfyrwyr sy'n briodol ac yn ddigonol i ddarparu profiad academaidd o safon uchel.

22 Cynllunnir adnoddau'n flynyddol gyda chyfraniad gan dimau'r rhaglenni, ac mae'r rhain yn ystyried canlyniadau'r broses fonitro barhaus. Mae gan y Coleg bum campws, ac mae darpariaeth addysg uwch ar gael ar bob un ohonynt. Hefyd, cafwyd canmoliaeth am lety'r myfyrwyr yn yr adroddiad diweddaraf gan Estyn a gan fyfyrwyr. Yn ddiweddar, cafwyd nifer o ailddatblygiadau er mwyn gwella profiad y myfyrwyr. Mae'r rhain yn cynnwys Parth Dysgu Torfaen; Bloc y Celfyddydau Creadigol; a'r Ganolfan Hyfforddiant Nyrsio Milfeddygol. Mae gan bob un o'i gampysau Ganolfan Addysg Uwch benodol lle gall y myfyrwyr ddefnyddio cyfleusterau technoleg gwybodaeth a gofodau gwaith grŵp. Mae rhith-amgylchedd dysgu'r Coleg yn darparu lefel sylweddol o gymorth i fyfyrwyr, ac mae'n gweithredu fel cymuned ar-lein sydd hefyd yn darparu'r holl ddeunyddiau cwrs perthnasol. Mae gan bob un o'i gampysau ei Ganolfan Adnoddau Dysgu ei hun, ac mae ei hadnoddau'n cael eu diweddaru mewn ymgynghoriad â'r staff academaidd. Yn ogystal, gall myfyrwyr ddefnyddio rhith-amgylchedd dysgu'r brifysgol ddyfarnu berthnasol. Dywedodd y myfyrwyr hynny y cyfarfu'r tîm â nhw eu bod yn gyffredinol fodlon â'r adnoddau dysgu sydd ar gael iddyn nhw gan y Coleg a'i gyrff dyfarnu, yn ogystal â'r adnoddau o safon ddiwydiannol sydd ar gael yn ystod lleoliadau gwaith a phrosiectau byw.

23 Mae'r Coleg yn cynnig ystod lawn o wasanaethau cymorth i'w fyfyrwyr addysg uwch. Dyrennir tiwtor personol i bob myfyriwr sy'n cwrdd â nhw nifer o weithiau yn ystod y flwyddyn i gefnogi eu cynnydd academaidd a chanfod unrhyw anghenion am gymorth ychwanegol. Hefyd, mae'r Coleg wedi penodi hyfforddwyr cymorth academaidd a phersonol i gefnogi myfyrwyr addysg uwch wrth symud ymlaen i astudiaethau addysg uwch, yn ogystal â hyfforddwyr cynnydd i'w cefnogi wrth drosglwyddo i gyflogaeth, hunangyflogaeth neu astudiaethau pellach ar ôl cwblhau eu cyrsiau. Yn ogystal, mae'r Coleg yn cynnig cymorth dysgu, cyngor am gymorth cyllid myfyrwyr, cwnsela a chymorth lles, ac arweiniad gyrfaol. Cynhelir ymgyrchoedd yn rheolaidd hefyd i gefnogi myfyrwyr addysg uwch, ac mae gwybodaeth ar gael iddyn nhw ar y rhith-amgylchedd dysgu ac yn y Cylchlythyr i Fyfyrwyr Addysg Uwch. Siaradodd y myfyrwyr hynny y cyfarfu'r tîm â nhw'n gadarnhaol am y gwasanaethau cymorth cynhwysfawr a ddarperir gan diwtoriaid a staff arbenigol yn y Coleg, ac am y ffordd broffesiynol a chyfrinachol y mae eu materion yn cael eu trin.

## Yr arferion craidd: Mae'r darparwr yn cymryd camau i gynnwys ei fyfyrwyr, yn unigol ac ar y cyd, yn y prosesau o sicrhau a gwella ansawdd eu profiad addysgol.

24 Mae'r Coleg yn defnyddio amrywiaeth eang o ddulliau i gasglu adborth gan ei fyfyrwyr ar draws y sefydliad. Mae'r rhain yn cynnwys gweithredu system ffurfiol o gynrychiolaeth dysgwyr addysg uwch gyda chynrychiolwyr etholedig. Mae'r Rheolwr Profiad Dysgwyr yn hyfforddi cynrychiolwyr i'w cefnogi yn eu rolau, ac mae hyfforddiant hefyd ar gael i gynrychiolwyr perthnasol o Brifysgol De Cymru. Mae cynrychiolwyr y myfyrwyr yn cymryd rhan yng nghyfarfodydd allweddol y prifysgolion, yn cynnwys y Pwyllgor Ansawdd Addysg Uwch, Pwyllgor Dysgu ac Addysgu Addysg Uwch a'r Bwrdd Llywodraethwyr, lle cedwir un lle i fyfyriwr addysg uwch. Hefyd, mae'r sefydliad yn defnyddio amrywiaeth o arolygon, sy'n cynnwys yr Arolwg Ymgeisio, Cofrestru a Chynefino i Ddysgwyr, Holiadur Canol-cwrs a'r Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol. Yn ogystal, mae'r Coleg yn cynnal Fforymau Dysgwyr Addysg Uwch bob semester, yn ogystal â Fforymau Dysgwyr y Pennaeth ar ei gampysau.

25 Gwelodd y tîm nifer o esiamplau oedd yn dangos bod newidiadau wedi eu cyflwyno mewn ymateb i adborth gan y myfyrwyr. Roedd y rhain yn cynnwys y rhaglen FdSc mewn Nyrsio Milfeddygol, lle gwnaethpwyd newidiadau i'r math o asesiad a ddefnyddir ac i'r amserlennu. Gwnaethpwyd newidiadau pellach i hygyrchedd y llyfrgell a bellach gall myfyrwyr ddefnyddio'r cyfleuster ynghyd â gwasanaeth hunanwasanaeth pan fo'r llyfrgell ar gau ac mae'r sefydliad

wedi caffael mwy o werslyfrau. Esboniodd y staff hefyd eu bod wedi gofyn am adborth ar y dysgu a'r addysgu mewn rhai meysydd astudio mewn un wythnos o ddarpariaeth ac yna wedi addasu eu harferion ar gyfer y sesiwn ddilynol - roedd y tîm o'r farn bod y dull hwn yn hynod ymatebol i farn y myfyrwyr. Roedd y myfyrwyr wedi sôn hefyd eu bod eisiau mwy o gyngor ac arweiniad ymlaen llaw i'w cefnogi i wneud penderfyniadau, er enghraifft wrth wneud cais am Lwfans Myfyrwyr Anabl. Felly, mae'r Coleg wedi cyflwyno Digwyddiadau Ymgeisio'r Myfyrwyr i fyfyrwyr sydd wedi gwneud cais, ac mae'r rhain yn cael eu datblygu mewn ffordd fwy personol na diwrnodau agored lle trafodir beth i'w ddisgwyl nesaf. Ar y cyfan, gwelodd y tîm ddiwylliant o ymateb i adborth gan fyfyrwyr mewn ffordd effeithiol ac ymatebol, a chadarnhawyd hyn gan y myfyrwyr hynny y cyfarfu'r tîm â nhw.

### Yr arferion craidd: Mae gan y darparwr weithdrefnau teg ac eglur sydd ar gael i'r myfyrwyr i gyd, ar gyfer ymdrin â chwynion ac apeliadau.

26 Mae gan y Coleg bolisïau wedi eu cyfundrefnu ar gyfer ymdrin â chwynion myfyrwyr ac apeliadau academaidd. Ymdrinnir â chwynion drwy ddilyn y Drefn Gwyno i Fyfyrwyr Addysg Uwch. Anogir y myfyrwyr i ddatrys cwynion yn anffurfiol gyda'r aelod o staff perthnasol, lle bo modd. Os nad yw'r myfyrwyr yn fodlon â chanlyniad y broses anffurfiol, cânt gyflwyno cwyn ffurfiol i'r Coleg drwy ddefnyddio ei ffurflen adborth a chwynion sydd ar gael ar y Porth Dysgwyr. Os ydynt yn dal i fod yn anfodlon â chanlyniad eu cwyn, gallant apelio, ac mae ganddynt hefyd hawl i ofyn i'r corff dyfarnu perthnasol ystyried eu cwyn ar y cam priodol o'u prosesau perthnasol. Yn y pendraw, gall y myfyrwyr anfon eu cwyn ymlaen i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol Addysg Uwch.

27 Hefyd, mae'r Weithdrefn a Pholisi Cwynion Myfyrwyr yn nodi'n glir bod apeliadau academaidd yn cael eu hystyried yn unol â gweithdrefnau ar wahân. Mae gosodiadau gan ddysgwyr yn erbyn penderfyniadau a wneir wrth arholi ac asesu myfyrwyr sy'n astudio ar gyrsiau Pearson yn derbyn sylw yn unol â Gweithdrefn a Pholisi Apeliadau Academaidd Pearson. Cyfarwyddir myfyrwyr sy'n astudio ar raglenni ar etholfraint i ddilyn prosesau apelio'r corff dyfarnu perthnasol. Mae llawlyfrau i fyfyrwyr a Threfn Gwyno i Fyfyrwyr Addysg Uwch y Coleg yn cynnwys cyfeiriadau at bolisïau a gweithdrefnau perthnasol, ac mae'r myfyrwyr yn derbyn y wybodaeth hon yn ystod eu cyfnod cynefino hefyd. Cadarnhaodd y myfyrwyr i'r tîm eu bod yn gwybod ymhle i gael gafael ar y wybodaeth berthnasol ac yn deall sut i gwyno ac apelio.

### Yr arferion craidd: Lle mae'r darparwr yn cynnig graddau ymchwil, mae'n eu darparu mewn amgylcheddau ymchwil sy'n addas ac yn gefnogol.

28 Nid yw'r Coleg yn cynnig unrhyw raddau ymchwil. Felly, nid yw'r arferion craidd hyn yn berthnasol.

### Yr arferion craidd: Lle mae'r darparwr yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, mae ganddo drefniadau effeithiol i sicrhau bod y profiad academaidd o safon uchel, lle bynnag neu sut bynnag y darperir y cyrsiau neu pwy bynnag sy'n eu darparu.

29 Mae'r Coleg yn gweithio gyda phum darparwr. Mae dogfennau partneriaeth a llawlyfrau ansawdd perthnasol sy'n esbonio cyfrifoldebau'n glir, ac mae'r staff yn deall hyn. Mae pob un o'r prifysgolion yn penodi tiwtor cyswllt yn y Coleg i weithio gyda'i gymar yn y brifysgol. Gyda Pearson mae'r cyswllt â'r arholwr allanol. Mae proses fonitro barhaus y Coleg yn cyflenwi systemau a phrosesau'r prifysgolion gan ganiatáu iddo gyflawni'r cyfrifoldebau sydd ganddo tuag at ei gyrff dyfarnu drwy gyfrwng ei ofynion ei hun o ran rhoi adroddiadau blynyddol, ac o ganlyniad y hynny ceir adroddiad hunanasesu manwl gyda chynllun gwella ansawdd.

30 Mae gan y Coleg brosesau sydd wedi eu sefydlu'n dda ar gyfer canfod, cymeradwyo, monitro ac asesu lleoliadau gwaith er mwyn sicrhau bod gofynion rhaglenni penodol a'r cyrff

proffesiynol perthnasol yn cael eu bodloni. Mewn perthynas â rhan o'r ddarpariaeth, mae staff clinigol sy'n ymwneud â lleoliadau gwaith yn cael eu hyfforddi a'u cefnogi gan y Coleg i'w galluogi i asesu'r myfyrwyr, ond mae'r canlyniadau terfynol yn cael eu safoni gan staff y Coleg. Mae darparwyr lleoliadau gwaith yn derbyn cefnogaeth dda gan y Coleg i'w helpu i ddeall a chyflawni eu cyfrifoldebau.

### Yr arferion craidd: Mae'r darparwr yn cefnogi ei fyfyrwyr i gyd i gael canlyniadau llwyddiannus ar lefelau academaidd a phroffesiynol.

31 Cynhelir Byrddau Arholi Addysg Uwch ddwywaith y flwyddyn ar gyfer pob rhaglen i graffu ar berfformiad y myfyrwyr. Mae arholwyr allanol a benodir gan y prifysgolion dyfarnu'n cymryd rhan yn y byrddau hyn a chânt roi sylwadau am asesiad. Mae'r rhain yn hysbysu'r adroddiadau monitro cyrsiau - a chaiff canlyniadau'r rhain eu monitro a gweithredir arnynt yn briodol. Defnyddir data o arolygon ar lefel modiwlau i ddadansoddi cynnwys a dulliau asesu'r modiwlau unigol. Rhoddir ystyriaeth hefyd i ddata am berfformiad y myfyrwyr. Mae'r dadansoddiad hwn yn cael ei drafod gydag arholwyr allanol, a'i ystyried wrth ddyfarnu graddau ac wrth argymell bod myfyrwyr yn symud ymlaen yn eu hastudiaethau. Mae'r manylebau rhaglenni'n dangos cyflawniad y canlyniadau dysgu a fwriedir drwy asesiad yn glir. Mae'r cytundebau rhwng y Coleg a'i gyrff dyfarnu'n nodi bod yn rhaid i'r safonau academaidd a'r dyfarniadau a gyflawnir fod yn gyfatebol â'r rheiny a gyflawnir gan fyfyrwyr sy'n ennill dyfarniadau cymaradwy yn eu sefydliadau eu hunain neu mewn sefydliadau eraill, a bod yn rhaid iddyn nhw alinio â'r FHEQ. Mewn perthynas â rhaglenni sydd wedi eu hardystio gan gyrff proffesiynol, darperir tystiolaeth sy'n dangos bod y myfyrwyr wedi cyrraedd y lefelau priodol o gymhwysedd proffesiynol - er enghraifft, y rhaglen FdSc mewn Nyrsio Milfeddygol sydd wedi ei hardystio gan Goleg Brenhinol y Milfeddygon.

### Yr arferion cyffredin: Mae'r darparwr yn adolygu ei arferion craidd sy'n ymwneud ag ansawdd yn rheolaidd, ac mae'n defnyddio'r canlyniadau i ysgogi datblygiad a gwelliant.

32 Mae gwelliant yn un o'r themâu yng nghylchoedd gwaith y Pwyllgor Ansawdd Addysg Uwch, y Pwyllgor Dysgu ac Addysgu Addysg Uwch, y Pwyllgor Addysg Uwch, a'r Grŵp Llywio Addysg Uwch. Ysgogir gwelliant drwy broses o fonitro gwelliant yn barhaus sy'n cefnogi'r broses fonitro flynyddol. Mae'r broses yn edrych ar gyfresi data sefydliadol ac adborth gan y dysgwyr, ac yn bwydo i mewn i brosesau adolygu modiwlau a rhaglenni, a chydgesglir y canlyniadau mewn adroddiad hunanasesu addysg uwch a chynllun datblygu ansawdd cysylltiedig. Mae'r cylch monitro wedi ei sefydlu'n dda ar y calendr academaidd, ac mae gweithdrefnau sefydledig ar waith, o dan oruchwyliaeth y Pennaeth Addysg Uwch, ar gyfer sicrhau bod y staff a'r dysgwyr yn cymryd rhan mewn prosesau adolygu. Cynhelir cyfarfodydd timau rhaglen swyddogol drwy gydol y flwyddyn i adolygu cynlluniau gweithredu a thrafod adborth gan y dysgwyr ac unrhyw gamau gweithredu sydd eu hangen. Mae'r dull hwn yn hwyluso gwelliant parhaus mewn ansawdd, ac mae'r Pwyllgor Ansawdd Addysg Uwch yn monitro'r camau gweithredu a gymerir ac yn ymateb i adborth gan y dysgwyr.

33 I bwrpasau monitro blynyddol, mae pob Pennaeth Ysgol yn cynhyrchu Adroddiad Trosolwg Addysg Uwch yr Ysgol ac mae'r Cyfarwyddwr Cyfadran yn defnyddio'r rhain i gynhyrchu Adroddiad Trosolwg y Gyfadran. Mae Adroddiadau Trosolwg yr ysgolion a'r cyfadrannau'n cael eu craffu gan y Pwyllgor Addysg Uwch a gall y pwyllgor hwn nodi rhaglenni a fydd yn dod o dan y Fenter Gwella Canlyniadau, sef proses wedi ei llunio i gefnogi darpariaeth lle canfuwyd problemau. Cynhyrchir Adroddiad Hunanasesu Addysg Uwch a Chynllun Datblygu Ansawdd cysylltiedig y Coleg gan y Pennaeth Addysg Uwch ac mae'r Bwrdd Llywodraethwyr yn rhoi ystyriaeth iddo unwaith y bydd y Pwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd wedi craffu arno.

34 Yn rhan o'r cylch monitro parhaus, mae Adroddiadau Hunanasesu'r Penaethiaid Ysgol yn rhoi ystyriaeth i anghenion datblygiad y staff, ac mae hyn yn ysgogi gweithgareddau DPP

ar lefel sefydliadol. Mae'r broses adolygu perfformiad yn ystyried dyheadau gyrfaol y staff ac yn cynnwys trafodaeth ffurfiol gyda rheolwyr llinell ynglŷn â sut i wireddu'r rhain.

**Yr arferion cyffredin: Mae dulliau'r darparwr o reoli ansawdd yn cynnwys defnyddio arbenigedd allanol.**

35 Mae'r Coleg yn rheoli ansawdd yn effeithiol, gan ddefnyddio arbenigedd allanol amrywiol. Er bod y cyrff dyfarnu'n gyfrifol am y broses arholi allanol, mae'r Coleg yn ymgysylltu'n effeithiol â'u hadroddiadau, gan nodi unrhyw broblemau ac ymateb yn briodol iddynt. Mae gweithgareddau dilysu a chymeradwyo cyrsiau, a reolir gan y cyrff dyfarnu, yn cynnwys mewnbwn allanol. Mae gan y Coleg gysylltiadau eang â chyflogwyr i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a darparu'r cwricwlwm a lleoliadau gwaith. Yn ddiweddar, mae wedi sefydlu Adduned Partneriaeth a Chyflogwyr gyda'r nod o roi cyflogwyr yn greiddiol yng ngweithgarwch y Coleg. Y bwriad yw bod yr adduned hon o fudd i'r ddwy ochr a darparu cynnydd posibl i mewn i gyflogaeth drwy gynnig gweithgareddau megis lleoliadau gwaith, gwersi meistr a phrosiectau byw. Er bod y cyrff dyfarnu'n gyfrifol am yr agweddau sy'n ymwneud ag ansawdd y ddarpariaeth a achredir gan gyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio, mae'r Coleg yn cynnal cysylltiadau cryf â'r cyrff perthnasol er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu a darparu'r cwricwlwm.

**Yr arferion cyffredin: Mae'r darparwr yn cynnwys ei fyfyrwyr, yn unigol ac ar y cyd, yn y prosesau o ddatblygu, sicrhau a gwella ansawdd eu profiad addysgol.**

36 Mae'r Coleg yn cymryd camau i gynnwys ei fyfyrwyr mewn prosesau dilysu, ail-ddilysu ac adolygu. Mae hyn yn cynnwys cymryd rhan mewn cyfarfodydd panelau dilysu ac mewn trafodaethau anffurfiol, a gwneud cyfraniadau ffurfiol i brosesau o adolygu a newid modiwlau. Cadarnhaodd y myfyrwyr i'r tîm eu bod yn derbyn clust i'w sylwadau yn ystod y prosesau hyn. Yn ogystal â'r system ffurfiol o gynrychiolaeth myfyrwyr sy'n galluogi i'r myfyrwyr gymryd rhan yn y prosesau o ddatblygu, sicrhau a gwella ansawdd eu profiad addysgol, mae'r Coleg hefyd yn defnyddio dulliau anffurfiol o ymgysylltu â'i fyfyrwyr. Mae hyn yn cynnwys blychau ar wefan y Coleg lle gall y myfyrwyr gyflwyno eu hawgrymiadau, yn ddienw os byddent yn dymuno hynny. Mae'r Rheolwr Datblygu Addysg Uwch yn derbyn yr adborth hwn ac yn ei frysbennu i'r aelodau perthnasol o staff y sefydliad i gymryd camau i fynd i'r afael â'r problemau.

37 Mae'r staff hefyd yn casglu adborth gan y myfyrwyr am eu profiadau ar leoliad gwaith. Mae hyn yn digwydd drwy gasglu data o arolygon ac yn ystod ymweliadau gan staff â lleoliadau gwaith y myfyrwyr. Mae Llawlyfr Lleoliad Gwaith Clinigol y rhaglen FdSc mewn Nyrsio Milfeddygol yn nodi'r prif gysylltiadau i'r myfyrwyr yn ystod eu lleoliadau gwaith. Dywedodd y myfyrwyr hynny y cyfarfu'r tîm â nhw eu bod yn teimlo bod eu barn yn derbyn clust ac ystyriaeth, a bod canlyniadau eu hadborth, p'un a ydynt yn gadarnhaol neu'n negyddol, yn cael eu hesbonio iddyn nhw - er enghraifft, adroddiad cynaliadwyedd sydd wedi ei gynnwys yng nghyflwyniad y myfyrwyr, ac addasiadau i drefnau asesu y cytunwyd arnynt rhwng darlithwyr a myfyrwyr. Roedd rhywfaint o gyfranogaeth y myfyrwyr yn y gwaith o ddatblygu'r rhaglen FdSc mewn Nyrsio Milfeddygol.

## Y Disgwyliadau o ran Ansawdd sydd wedi eu nodi yng Nghod Ansawdd Addysg Uwch y DU (y Cod Ansawdd)

38 Gwelodd y tîm adolygu dystiolaeth gadarn oedd yn dangos bod y cyrsiau wedi eu llunio'n dda - gan ddarparu profiad academaidd o safon uchel; a lefel sylweddol o gymorth academaidd a bugeiliol, gan gynnwys cefnogaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r Coleg mewn rhanbarth lle mae ardaloedd o amddifadedd economaidd a chymdeithasol ac mae'n ceisio mynd i'r afael â hyn drwy ei ymrwymiad i ehangu cyfranogaeth, cymorth cynhwysfawr a chyfleoedd i symud ymlaen i addysg uwch. Galluogodd y dystiolaeth i'r tîm adolygu weld bod y ddarpariaeth yn bodloni'r Disgwyliadau, yr Arferion Craidd a'r Arferion Cyffredin yn ymwneud ag ansawdd sydd wedi eu nodi yn y Cod Ansawdd.

39 I ffurfio ei feirniadaethau, gallai'r tîm adolygu archwilio ystod eang o dystiolaeth ddogfennol, sy'n cynnwys dogfen hunanwerthusiad a chyflwyniad y myfyrwyr; a gallai'r tîm adolygu hefyd

gwrdd, a chynnal trafodaethau cadarnhaol iawn, gydag amrywiaeth eang o staff a myfyrwyr, yn cynnwys Pennaeth y Coleg a chynrychiolydd un o'i gyrff dyfarnu. Galluogodd y dystiolaeth i'r tîm adolygu archwilio'r ddarpariaeth addysgol a gynigir i'r myfyrwyr, o'r cam derbyn hyd y graddio.

## Y feirniadaeth

40 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad y gellir teimlo hyder bod ansawdd profiad academaidd y myfyrwyr yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol.

## Sylwadau am gydymffurfiaeth â'r Safonau Iaith Gymraeg

41 Mae gwybodaeth eang ar gael yn gyhoeddus ar wefan y Coleg sy'n disgrifio ei ymrwymiad i hybu'r Gymraeg yn fanwl, gan gynnwys gwybodaeth am ei gydymffurfiad â Safonau'r Gymraeg. Mae'r Coleg yn cyhoeddi ei holl wybodaeth a'i holl ddeunyddiau cyhoeddusrwydd a hyrwyddo ac unrhyw ddeunyddiau ysgrifenedig eraill yn y Gymraeg a'r Saesneg. Cadarnhaodd y myfyrwyr hynny y cyfarfu'r tîm â nhw fod hyn yn digwydd, a dywedodd hefyd fod darlithoedd, y mae llawer ohonynt yn ddwyieithog, yn rhoi cyfarwyddiadau yn y Gymraeg iddyn nhw weithiau er mwyn eu hannog i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae'r Coleg wedi datblygu Strategaeth Cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog gyda chynllun gweithredu atodol, ac mae rolau penodol i gefnogi gweithrediad y strategaeth hon. Mae'r polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn y Coleg yn ymdrin â'r pwnc yn fanwl. Mae'r Coleg yn cynhyrchu adroddiad blynyddol am ei gydymffurfiad â Safonau'r Gymraeg sy'n cael ei adolygu gan y Pwyllgor Archwilio. Mae Grŵp Llywio'r Gymraeg yn monitro perfformiad y Coleg yn erbyn y Safonau. Rhoddir canllawiau clir i'r staff i gyd am y pethau y mae'n rhaid iddynt eu gwneud i gydymffurfio â'r Safonau. Mae'r staff yn cael eu hannog a'u cefnogi i ddysgu Cymraeg a chesglir data ynglŷn â pha mor rhugl yw'r staff.

42 Rhoddir gwybod i'r myfyrwyr am yr opsiynau iaith yn ystod diwrnodau agored a thrwy'r broses dderbyn, a darperir rhagor o wybodaeth drwy gydol y rhaglen. Mae cyfle i bob myfyriwr gyflwyno eu haseiniadau yn y Gymraeg a chael tiwtor personol sy'n siarad Cymraeg. Mae hefyd gyfle iddyn nhw ddod yn Llysgenhadon y Gymraeg a chefnogi'r Coleg yn ei waith o hybu a datblygu'r defnydd a wneir o'r Gymraeg. Mae'r Coleg wedi penodi Rheolwr Datblygu Dwyieithrwydd i sicrhau cydymffurfiad â Safonau'r Gymraeg ac i annog pobl i ddefnyddio'r Gymraeg yn rhan o'u profiad cyfan o'r Coleg, drwy gynnal gweithdai a gweithgareddau datblygu a chyfoethogi i'r staff. Mae Grŵp Llywio'r Gymraeg yn craffu ar weithdrefnau'r Coleg ac yn sicrhau ei fod yn ateb anghenion ei fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith.

**QAA2814 - R14591 - Chwe 24**

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2024
Southgate House, Southgate Street, Caerloyw, GL1 1UB
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786

Ffôn: 01452 557000
Gwefan: www.qaa.ac.uk